



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



Galwad Agored:

Llenyddiaeth Cymru | Firefly Press

Gwobr 'Rising Stars' Cymru 2021

Ysbrydoli Cymunedau | Datblygu Awduron | Dathlu diwylliant llenyddol Cymru



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



Cyhoeddi ail rownd menter unigryw sy'n adnabod a datblygu beirdd
plant talentog o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrif ethnig sydd wedi
eu lleoli yng Nghymru, gyda'r bwriad o gyhoeddi blodeugerdd o'u
gwaith.

Dyddiad cau: 5.00 pm, dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020

Cefndir

Ym mis Tachwedd 2019, daeth Llenyddiaeth Cymru a Firefly Press ynghyd i ffurfio [Gwobr](#)

[Rising Stars Cymru 2020](#), menter newydd ar gyfer beirdd plant o gefndiroedd Du, Asiaidd



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



neu leiafrif ethnig, sy'n byw yng Nghymru. Llwyddodd y wobr hon i ddarganfod talent

newydd, darparu cyfleodd, a rhoi llwyfan i dri unigolyn talentog. Mae'r [beirdd](#) yn parhau i

ddatblygu fel awduron ac yn llwyddo gyda chyfleoedd pellach yn dilyn y wobr. Enghraifft

wych yw [Alex Wharton](#), Rising Star 2020, a llwyddodd i gael cytundeb cyhoeddi gyda Firefly

Press ar gyfer ei gasgliad barddoniaeth i blant, Daydreams and Jellybeans, sydd i'w gyhoeddi

yng ngwanwyn 2021.

“Dwi’n hynod ddiolchgar o dderbyn y wobr yma, dwi’n teimlo ei fod yn gydnabyddiaeth i’r hangerdd a’r hymroddiad o ysgrifennu barddoniaeth i blant. Mae eisoes wedi agor drysau i gyfle arbennig i mi gan y bydd y bobl hyfryd yn Firefly yn cyhoeddi fy nghasgliad cyntaf Daydreams and Jellybeans y flwyddyn nesaf. Dylai cerddi gael eu rhannu, a dylai eu geiriau ganfod y rheiny sydd eu hangen - mae’r wobr wedi rhoi llwyfan ehangach i fy ngeiriau i. Mae’n gyffrous a dwi’n hynod o ddiolchgar.”

Alex Wharton

Enillydd Gwobr Rising Stars Cymru 2020



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



Roedd Gwobr Rising Stars Cymru 2020 yn rhagweld y byddai'r awduron llwyddiannus yn cael

eu hystyried i gyhoeddi eu gwaith fel rhan o **Flodeugerdd Rising Stars Cymru**. Yn dilyn cais

llwyddiannus am gefnogaeth ariannol gan **Gyngor Llyfrau Cymru**, bydd Firefly Press yn

cyhoeddi'r Flodeugerdd yn gynnar yn 2022. Mae Llenyddiaeth Cymru a Firefly Press yn nawr

yn chwilio am 5 bardd talentog arall i elwa o'r cynllun hwn.

Dyma gyfle ar gyfer awduron sydd ar gychwyn eu gyrfaedd i ddatblygu eu hymarferion

creadigol. Dros gyfnod o flwyddyn, bydd ymgeiswyr llwyddianus Rising Stars Cymru 2021 yn

derbyn **gwobr ariannol, ynghyd â sesiwn mentora gydag enillydd blaenorol y wobr yn**

2020, Alex Wharton. Yn ogystal, bydd y beirdd yn derbyn cyfleoedd i ddarganfod rhagor am

y diwydiant llenyddol a'r diwydiant Cyhoeddi gan arbenigwyr proffesiynol Firefly Press

ynghyd â chefnogaeth a chymorth parhaus gan y tîm yn Llenyddiaeth Cymru.

Mae Gwobr Rising Stars Cymru 2021 yn nawr ar agor. Ni does unrhyw ffi ymgeisio. Mae'r

manyion llawn ar gael isod.

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



Beirdd neu ddarlunwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig sy'n ysgrifennu neu'n darlunio ar gyfer plant 7-11 mlwydd oed. Rhaid i ymgeiswyr fod wedi eu lleoli yng Nghymru, dros 18 mlwydd oed a heb eu cyhoeddi.

Beth ydych chi'n ei olygu wrth ddweud awdur/bardd sydd heb eu cyhoeddi?

Golygwn fardd neu ddarlunydd sydd heb dderbyn cytundeb cyhoeddi traddodiadol. Os yw eich gwaith wedi cael ei gyhoeddi mewn cylchgrawn neu mewn blog ar-lein, rydych chi dal yn gymwys i ymgeisio. Os nad ydych chi'n sicr os ydych chi'n gymwys, cysylltwch am sgwrs.

Beth sydd ar gael?

Caiff **hyd at 5 awdur** eu dewis ar gyfer **Gwobr Rising Stars Cymru 2021**, a byddant yn derbyn:

- Gwobr ariannol o £100 yr un*



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



- Cyfle i ymuno gyda gweddill yr ymgeiswyr llwyddiannus mewn sesiwn mentora 2 awr

o hyd gydag Alex Wharton, ennillydd Gwobr Rising Stars Cymru 2020

- Y posibilrwydd o gael detholiad o’u gwaith wedi ei gyhoeddi fel rhan o Flodeugerdd

Rising Stars Cymru

- Gweithdy grŵp gyda’r cyhoeddwr Firefly Press, ynglŷn â’r diwydiant cyhoeddi

- Sesiwn hyfforddiant grŵp gyda Llenyddiaeth Cymru, yn canolbwyntio ar gyfleoedd

datblygu awduron

***Gyda chefnogaeth ariannol trwy garedigrwydd [Quarto Translations](#)**

“Yn union fel na all un iaith brofi holl ystod y profiad dynol, ni all un awdur gael monopoli ar y ffordd yr ydym ni’n gweld y byd. Mae straeon fel rhwyd, a po fwyaf eang y medrwn ni daflu’r rhwyd honno, po fwyaf y cysylltiadau y cawn. Dyma pam fod Quarto Translations mor falch o noddi Gwobr Rising Stars Cymru.”

Robin Bennett

Sylfaenydd a Rheolwr Gyfarwyddwr, Quarto Translations



Canllawiau

- Bydd Galwad Agored Gwobr Rising Stars Cymru 2021 yn agor ar ddydd Iau, **8 Hydref**

2020 ac yn cau am **5.00 pm, dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020**. Ni chaiff unrhyw geisiadau

hwyr eu hystyried.

- Dylai'r ymgeiswyr fod yn fardd/awdur Du, Asiaidd neu o gefndir lleiafrif ethnig.
- Dylai'r ymgeiswyr fod wedi eu lleoli yng Nghymru ac mae'n rhaid bod dros 18 mlwydd oed
- Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg, neu unrhyw iaith arall (ond mae rhaid i chi ddarparu cyfieithiad Saesneg neu Gymraeg os yw'r gwaith gwreiddiol mewn unrhyw iaith arall).
- Gallwch ymgeisio gyda rhwng 3 – 5 o gerddi.
- Ni ddylai cerddi unigol fod yn fwy na 100 llinell yr un.
- Dylai'r holl gerddi fod yn waith gwreiddiol gennych chi eich hun.
- Nid yw derbynwyr blaenorol y wobr yn gymwys i ymgeisio unwaith eto.



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



- Mae cymryd rhan yng Ngwobr Rising Stars Cymru 2021 yn rhoi caniatâd anghyfyngedig i

Llenyddiaeth Cymru a Firefly Press gyhoeddi a darlledu'r cerddi mewn print, ar-lein, sain,

perfformiad a fideo. Ni fydd modd cyhoeddi'r cerddi buddugol yn unman arall tan fis

Medi 2022.

Sut i ymgeisio

I ymgeisio, [cliciwch yma](#) i gwblhau'r ffurflen gais. Bydd gofyn i chi gynnwys:

- Rhwng 3 - 5 o gerddi. Dylai pob cerdd gael ei hanfon mewn un dogfen .doc, .dox neu .pdf.
- Bywgraffiad, heb fod yn fwy na 200 o eiriau – yn cynnwys crynodeb byr amdanoch chi eich hun a'ch diddordeb mewn ysgrifennu
- CV cyfredol
- Gwybodaeth Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydym yn derbyn ceisiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



Rydym yn rhagweld y caiff rhai o'r awduron sy'n cael eu hadnabod drwy'r alwad agored eu comisiynu i gyfrannu tuag at Flodeugerdd Rising Stars Cymru maes o law.

Anghenion Hyrwyddo, Marchnata a Gwerthuso

Yn dilyn y broses dethol, gofynnwn i'r awduron llwyddiannus ddarparu:

- Bywgraffiad byr, 200 o eiriau
- Llun diweddar, ansawdd uchel
- Cyfres o ddyfyniadau gwahanol

Bydd yr uchod yn cael eu defnyddio ar wefannau a sianeli cyfryngau cymdeithasol

Llenyddiaeth Cymru a Firefly Press.

Caiff yr ymgeiswyr llwyddiannus eu hannog i ysgrifennu blogs, creu fideos ac i rannu

gwybodaeth ynglŷn â'u datblygiad proffesiynol ac artistic ar eu sianelau cyfryngau

cymdeithasol personol wrth i'r prosiect ddatblygu.

Y dyddiad cau i fynegi diddordeb yw:



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



5.00 pm, dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020

Pe bai gennych unrhyw gwestiynau, neu os am drafod eich cais cyn ymgeisio,

cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru:

post@llynyddiaethcymru.org



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



Amdanom ni:

Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu

llythrennau. Mae ein [Cynllun Strategol 2019-2022](#) yn amlinellu Cynrychiolaeth a

Chydarddoldeb fel un o'n blaenoriaethau tactegol. Dylai awduron Cymru gynnwys ystod o

oedrannau, o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd, ethnigedd, rhyw, ardaloedd ac

ieithoedd. Nid cau unrhyw un allan yw'r bwriad yma, ond yn hytrach greu cyfleoedd teg a

chyfartal, a sicrhau fod datblygiad proffesiynol ac arloesedd celfyddydol ar gael i bawb.

Firefly Press

Cyhoeddwr annibynnol llyfrau plant a phobl ifanc yw Firefly Press, a chanddynt swyddfeydd

yng Nghaerdydd ac Aberystwyth. Ers eu sefydlu 2013, Firefly yw'r unig gyhoeddwr yng

Nghymru sy'n bodoli'n unswydd ar gyfer plant. Mae'n cyhoeddi ffuglen o safon mewn

Ysbrydoli Cymunedau | Datblygu Awduron | Dathlu diwylliant llenyddol Cymru



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



genres o bob math i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 19. Eu nod yw cyhoeddi llyfrau gan awduron a darlunwyr gwych, waeth o ble y daw'r rheini. Ymhlith eu llwyddiannau diweddar y mae *The Clockwork Crow* gan Catherine Fisher, a gyrhaeddodd restr fer Gwobrau Llyfrau Blue Peter ac a enillodd Wobr Tir na N'og, ac *Aubrey and the Terrible Yoot* gan Horatio Clare, a enillodd wobr Branford Boase am y nofel gyntaf orau i blant.

Quarto Translations

Mae gan Quarto Translations dîm ymroddedig o gyfieithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn gwaith cyfieithu ar gyfer cyhoeddwyr. Caiff pob cyfieithiad llyfr eu prawf ddarllen gan ail gyfieithydd, yn ogystal â'i brawf ddarllen am y trydydd tro cyn gyrru'r cyfieithiad terfynol yn ôl i'r cleient. Mae Quarto Translations yn arbenigo mewn dros 400 o ieithoedd ac yn darparu ystod o wasanaethau eraill gan gynnwys gosod teip, argraffu a rhannu.